OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1937

# Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2015

**Diwygiadau i Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009**

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "cynefin naturiol" ("natural habitat") yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) cynefinoedd rhywogaethau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar warchod adar gwyllt(**1**), neu yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno, neu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(**2**);";

(b) ar gyfer y diffiniad o "rhywogaethau a warchodir" ("protected species") rhodder—

"ystyr "rhywogaethau a warchodir" ("protected species") yw rhywogaethau o fath a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC neu a restrir yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno neu Atodiadau II a IV i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC;"

(**1**) OJ Rhif L 20, 26.01.2010, t.7; diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/17/EU (OJ Rhif L 158, 10.06.2013, t.193).
(**2**) OJ Rhif L 206, 22.07.1992, t.7; diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/17/EU (OJ Rhif L 158, 10.06.2013, t.193).